

# SOTHAF

*Rhif 45  
Hydref  
1992*

**CAFFI VADASSI  
Y CYFWELIAD MELYN**

**CYLCHOEDD HUD  
MEWN CARAFAN**

**LLESMAIR  
ER BUDD Y FORWYN**

**£1.00  
PUNT**







**'Bimbos ar Acid!'**

**Y CELFI CAM**

**HA!008 - CASET - £2.50 trwy'r post**

**LOLA**

6 HEOL GRON, CWMTWRCH ISAF, ABERTAWE, SA9 1DL.



# SOTHACH

RHIF 45

HYDREF 1992

£1.00

**SIART CYTGORD**

Higian

**TUDALEN 4****BARN Y BOBL**

Diwedd gwareiddiad

**TUDALEN 5****PIGION PIWSIG - PIGION PELLACH**

Newyddion - Bargeinion - Teithiau - Tapiau - Crysau-T

**TUDALEN 6 - 7****Y CYFWELIAD MELYN**

Shwgazers Kinky

**TUDALEN 8****CYLCHOEDD HUD**

Mewn Carafan

**TUDALEN 10****ER BUDD Y FORWYN**

Cyfweiliad hefo Llesmair

**TUDALEN 11****ADOLYGS BYW**

Y Cnapan - Normandie - Roc Ystwyth - Trefriw?!

**TUDALEN 14****HEI! BEIBI, CYT A BYG**

Daniel Glyn, 'Come on Down!'

**TUDALEN 16****ADOLYGIADAU**


Cytuno?

**TUDALEN 17****ANNWYL SOTHACH!**

Deud y deud

**TUDALEN 22****CATALOG**


!

**TUDALEN 23**

CAFFI VADASSI



CYLCHOEDD HUD



LLESMAIR



DANIEL GLYN

NID YW'R GOLYGYDDION NA'R CYHOEDDWR O ANGENRHEIDRWYDD YN CYDWELD A PHOB SAFBWyNT A FYNegIR GAN EIN CYFRANWYR. CYHOEDDwyD GAN GWMNI CYTGORD CYF. AC ARGRAFFwyD GAN O. JONES, LLANGFN.

©1992 CWMNI CYTGORD CYF. 1992 © CEDWIR POB HAWL NI ELLIR ATGYNHYRCHU UNRHYW RAN O'R CYHOEDDIAD HWN NA'I GADW MEWN CYFUNDREFN ADFERADWY NA'I DROSGLYDDO MEWN UNRHYW DDULL NA THRWY GYFRWNG ELECTRONIG, MECANYDDOL, FFOTOGOPIO, RECORDIO, NA FEL ARALL, HEB GANIATAD YMLAEN LLAW GAN Y CYHOEDDwYR.

SOTHACH!, 8 RHES VICTORIA, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3AG.

FFÔN : (0248) 600 578 FFACS : (0248) 600 587



# U GAIN U CHA Start Cy GORD


1. GERAINT JARMAN (12)
2. DAFYDD IWAN (1)
3. STEVE EAVES A'I DRIAWD (5)
4. Y CYRFF (14)
5. HOGIA LLANDEGAI (6)
6. BEGANIFS (2)
7. SOBIN A'R SMAELIAID (-)
8. MONIARS (3)
9. ANHREFN (13)
10. DEFAID (-)
11. DATBLYGU (-)
12. JESS (16)
13. TYNAL TYWYLL (7)
14. FFA COFFI PAWB (17)
15. PLETHYN (9)
16. MEIC STEVENS (19)
17. BYD NEWYDD (18)
18. HEFIN HUWS (-)
19. MYNEDIAD AM DDIM (15)
20. CERRIG MELYS (11)




GERAINT JARMAN



STEVE EAVES A'I DRIAWD



Y CYRFF



ANHREFN



DEFAID



## BARN Y BOBL

### DIWEDD GWAREIDDIAD:

"Dwi'n credu ein bod ni yn lygaid dystion i ddiwedd gwareiddiad gwych y Gorllewin" meddai ffrind ar y ffordd adref o gig. Fel rheol rhain yw'r dadleuon gwaethaf. Pynciau trwm hir wyntog a'r gyrrwr yr unig fod sobor a chall i ddeall yn iawn wir ystyr y datganiad.

Ond wedyn wrth feddwl daeth realiti y sefyllfa ataf. Yn yr oesoedd a fu nid oedd diwedd un gwareiddiad yn boen meddwl i neb ond aelodau'r gwareiddiad hwnnw, 'roedd gwareiddiad arall ar y trothwy a dyna sut y daeth ac yr aeth pobloedd fel yr Aztecaid, Yr Inciaid, Ymerodraeth Tseina, Rhufain a.y.b. Ond erbyn heddiw mae'r byd wedi lleihau i fod yn un gwareiddiad mawr, mae'r teledu a lluniau wedi normaleiddio pawb a phopeth, mae Sue Ellen yn wraig alcaholig glamyrus yn Dallas, Tseina, Rwsia, ac Iwerddon (chwedl Traddodiad Ofnus).

Mae diwylliannau byd-eang yn mynd i'r gwellt. Does neb arall ar ol i greu gwareiddiad newydd, neu i gymryd lle yr hen wareiddiad Gorllewinol. Nawr ywr amser i ddarganfod planed newydd a gwareiddiad arall efallai.

Rydym ar drothwy cyfnod tywyll di-ddiwylliant ofer newydd yn y ganrif nesaf. Bydd anarchiaeth yn rhemp a rhyfela gwaedlyd yn ddigwyddiad beunyddiol. Bydd twyll, rhagrith, hunanoldeb a thrachwant yn rheoli. Tybed pa mor bell yn y dyfodol mae rhyfel bydd?

Efallai mai dyma'r cwestiwn pwysicaf y bydd rhaid inni ei wynebu am weddill y ganrif yma. Mae'r byd yn cynhyrchu digon o fwyd, mwy na digon o fwyd i sicrhau fod yr holl boblogaeth yn cael ymborth iach a digonol. Ac eto yn nosweithiol, yn fwy eithafol bob tro, mae delweddau yn cyrraedd ein cartrefi o blant sydd yn ddim mwy na chroen ac asgwrn, eu llygaid sosser yn boenus a'u boliau mawr yn begerra am empathi a chymorth, tra eu bod yn cerdded ar hyd y wifren denau at y newyn olaf, llwgu hyd farwolaeth.

Eisioes mae nifer y meirw yn agosau yn sydyn iawn at hanner miliwn (20% o boblogaeth Cymru!). Drwyddi draw mae poen a dioddef ar y raddfa waethaf bosib yn creu dinistr, salwch, ac anobaith i'r trueiniaid sydd ar fin profi angau. A'r ffaith waethaf un, y ffaith sydd yn codi cyfog arnom ni i gyd yw fy mod i yn gwybod, eich bod chi yn gwybod, .....ein bod ni oll yn gwybod - nad oes raid i bethau fod fel hyn.

Atebion tymor byr sydd bwysicaf nawr, mae'n ystrydeb erbyn hyn mi wn,

ac mae'n debyg ei fod yn swnio'n naif ac yn or-syml, ac efallai yn ddibwrpas ei ailadrodd, ond hyd yn oed pebai 10% o'r adnoddau a dywalltwyd i mewn i Ryfel y Gwlff wedi eu harallgyfeirio at y broblem fwyd yn Somalia, dim ond un mis yn ol, gellid fod wedi achub cannoedd o filoedd o fywydau dynol. Cafodd Rhyfel y Gwlff ei weithredu dan esgus o achos dyngarol, nid oes angen esgus pathetig fel hwn y tro yma, mae'n achos dyngarol pur. Mae hwn yn achos dyngarol di-dwyll syml, heb yr agendae cudd a'r egwyddorion tywyll a sbardunodd wledydd y Gorllewin i ymuno mewn rhyfel. Heb fanylu'n ormodol mae'r uchod yn dweud y cyfan am natur sinigaidd y thygys sy'n gyfrifol am beidio atal tranc Somalia. Clywyd llawer yn ddiweddar am 'genocide' Iraq a'i debyg, mae'n amlwg fod yr hll-laddiad yma yn digwydd heddiw gan wledydd y Gorllewin sydd yn gwrthod achub Somalia, yn gwario miloedd ar ryfela, sy'n disgwyl i'r dyn cyffredin ar y stryd ail-dalu ei dreth drwy roi at newyn Somalia, gan fod y tipyn pres a roddodd fel treth y tro diwethaf wedi ei gamwario gan arweinwyr disglair a da y Gorllewin.

'Dyw ymateb Prydain Fawr ddim wedi bod yn ffafriol iawn, i ddweud y gwir mae'r pres a roddir yn hollol pathetig, wchi dwi'n hollol miffd os na all un o 5 o llywodraethau cyfoethoca'r byd roi ychydig filiynnau lawr ar y bwrdd i ddechrau'r bel ar ei thaith. A phetai Prydain yn rhyddhau'r math yna o arian gallem o leia haeddu rhyw fath o barch rhyngwladol am achos da am unwaith, yn hytrach na fel darn o dir sydd yn rhoi cymorth parod i ymosodiadau America, y Brawd Mawr, Yr Heddwes rhyngwladol trwm ar wledydd y Dwyrain. Efallai wedyn y gallem wthio gwledydd eraill yn hollol hunangyfiawn i roi ychydig nawr! Mae angen mesurau a gweithredu brys i ddechrau nawr.

Yr E.C. a'i fynyddoedd bydd, yr U.D.A. a'i wariant arfau anferth, a'r Cenhedloedd Unedig sydd yn methu penderfynu ar bolisi a'i weithredu mewn oes-pys, mae'r rhain oll yn euog. Ond byddai gweithredu nawr yn well na chael alaw hyfryd o'ch ffidil tra fod pobl Somalia yn llosgi. Dylai'r holl adnoddau y gallwn gael gafael arno, bob mymryn o wasgu posib ar lywodraethau gael ei ddefnyddio nawr, tydi hi dal ddim yn rhy hwyr i achub rhywun. Dylem ni gymeryd yr awennau, arwain nid dilyn a gwneud i'r system-achub weithio, gweithio'n iawn.

Ac yna, wedi inni ateb y broblem hon yn llwyddiannus, - os y gallwn ateb y

broblem hon yn llwyddiannus, bydd rhaid i'r gwaith go iawn ddechrau ar greu sylfaen fydd yn medru sicrhau na ddigwydd trychineb ar y raddfa yma byth eto.

Fel y dywedais, efallai mai dyma'r cwestiwn pwysicaf a mwyaf tyngedfennol y bydd yn rhai inni ymateb iddo yn ein hoed ni. Efallai mai ein hymateb ni wnaiff benderfynu dyfodol ein gwareiddiad gwych, efallai...

Edrychwch ar ein gwareiddiad ni. Mae'r pres a roddir i brynnu arfau yn hollol ffantastig. Does dim esgus dros wario gymaint ar beiriannau difa. Mae'r trydydd rhyfel byd eisioes wedi cychwyn rhwng y Gorllewin a'r Dwyrain, mae ymosodiadau'r Amerig ar Lybia ac Iraq, Iran etc. yn drwm, ac mae'r ymateb yr un mor felltithiol - awyren Lockerbie etc. Wnaiff y dyn cyffredin yn Iraq byth faddau i'r Amerig a'r Gorllewin, "Pery llid yn hwy na galar". Mae Armagedon ar y ffordd. Bwyd i achub neu peiriannau dinistr i ddifa....

Gyda thranc cyfraith a threfn yn y byd, llai o barch at gyd-ddyn a trachwant yn rheoli fe welir dirywiad diwylliant yn ormesol o eithafol. Mae blas y dyn cyffredin wedi dirywio o wrando ar athrylith Mozart neu'r telynorion/ffidlwrs gwerin Cymreig, yn ol at gerddoriaeth dyn cyntefig:- rhythm clyfar (fel a glywir gan lwythau'r Affrig) ac udo hunllefus uwch ei ben (neu "reu" yn ol ambell gerddor Cymreig). Mae dirywiad safonau moesol ac ieithyddol yn cael ei adlewyrchu mewn canu poblogaidd ieuencid y byd, a thruenus yw gweld pobl yn mwynhau cerddoriaeth am ei rhythm yn unig, neu am weiddi mewn rhythm. Dechreuodd y dirywiad gyda roc a rol y 50au ac yna gyda cherddoriaeth minimal di-ddim John Cage a chreaduriaid hynod eraill. Mae hi'n frwydr o dda yn erbyn drwg yn y byd ac eleni yn y S.R.G. mae Ty Gwydr a Datblygu wedi enill.

"Dwi'n credu ein bod ni yn lygaid-dystion i ddiwedd gwareiddiad gwych y Gorllewin" meddai cyfaill ar y ffordd adref o gig. Fel rheol rhain yw'r dadleuon dwaethaf. Pynciau trwm hir-wyntog a'r gyrrwr yr unig fod sobor a call ar ol i ddeall yn iawn wir-ystyr y datganiad. "Wyt ti ddim yn fy nghredu i? Just gwylia'r newyddion heno i weld y dinistr, y trychineb, y wylofain a rhincian dannedd. Mae'n dangos dirywiad enfawr mewn safonau moesol a pharch at bethau a phobl."

Meddai llais o gefn y car "Paid a malu...."



# P i G i O N P i w S i G

## JINA

Mae nifer cyfyngedig o grysau-T poblogaidd iawn JINA ar ôl heb eu gwerthu, felly dyma'ch cyfle ola i fod yn berchen ar enghraifft o gelfyddyd cnawdol cyfoes. Manteisiwch ar y cyfle drwy gysylltu a Pwyl ap Sion ar 0248 602 107.

## IAN RUSH

Mae crysau-T IAN RUSH (y grwp) yn dal ar gael am £6.50 gan Marc Jones, 31 Stryt y Bont, Pynycæ, Wrecsam, Clwyd. Ffôn: 0978 843 401.

Ar y crysau gwelir cynllun gwydfawr sy'n dangos IAN RUSH (y peldroediwr) yn sgorio'r gôl enwog yn erbyn Yr Almaen ar Barc yr arfau.

## PSYCHO

Mae'r trydydd rhifyn o'r ffansin "Psycho" allan rwan, mêt. Mae'n cynnwys cyfweiliadau (+ discograffis) gyda DATBLYGU, YR ANHREFN, TŶ GWYDR, A5, LLWYBR LLAETHOG a'r CELFI CAM.

Mae 'na golofn ddadleuol hefyd gan yr anhygoel DAVE 'MACHER' JONES.

Hyn i gyd o fewn 30 tudalen ar gael trwy'r post am ddim ond £1.00 (sy'n cynnwys post a chludiant) gan Steffan Cravos, 8 Penybanc, Tanerdy, Caerfyrddin, Dyfed SA31 2HA.

## STEVE EAVES

Mae STEVE EAVES A'I DRIAWD yn cychwyn ar eu taith y mis yma i hyrwyddo eu caset / cryno ddisg "CROEN DENAU" a lansiwyd yn y Steddfod eleni. Mae'r daith yn wahanol i'r arfer am nifer o resymau. Yn y lle cyntaf 'cyngherddau' yn hytrach na gigs fydd pob noson, yn cael eu cynnal mewn lleoliadau cyfforddus, lle bydd y gynulleidfa yn eistedd i lawr i fwynhau'r awyrgylch a set wahanol i'r arfer gan y band. Am y tro cyntaf bydd y band yn cynnwys wyth o gerddorion sef STEVE EAVES, ELWYN WILLIAMS, IWAN LLWYD, RICHARD WYNNE JONES, LES MORRISON, JACKIE WILLIAMS, PWYLL AP SION A DAFYDD DAFIS. Y gobaith yw ailgreu y swm arbennig a glywyd gyntaf ar yr albym "CROEN DENAU". Trefnir y daith gan ANKST a CYMDEITHAS YR IAITH a gellir cael mwy o wybodaeth drwy swyddfa ANKST ar: (0286) 881 010.

## DAFAD

Mae HUW DYLAN lleisydd a gitarydd Y DEFAID bellach wedi gadael y grwp ac wedi ymuno yn llawn amser gyda GWERINOS. Hefyd wedi ymuno fel rheolwr yn ddiweddar mae EMYR LLOYD o Brithdir sydd bellach yn gyfrifol am drefnu gigs, bwcio ac yn y blaen. Mae EMYR LLOYD hefyd yn gyfrifol am drefniadau PA RHAD sef gwasanaeth



Y DEFAID (HUW DYLAN YN Y CANOL)



# P i G i O N P E L L A C H

PA ar gyfer grwpiau ac yn y blaen. Os am fwcio GWERINOS neu yn angen am PA ffoniwch EMYR ar (0341) 41 205.

## DISGO TYSTION

Mae DISGO TYSTION ar gael am bris rhesymol ac yn cynnwys amrywiaeth amesing o gerddoriaeth o pop, dawns, hip hop, techno, ref, reggae, indie, 60au, gwerin a chlasurol. Manylion pellach: 0267 233 476.

## CUT TUNES

Mae CUT TUNES y grwp arbrofol o Fangor newydd arwyddo cytundeb gyda cwmni rheoli BIG NOIZE MUZIK o Lundain. Fe fydd y cwmni yn gyfrifol am hyrwyddo ac am ochr weinyddol y grwp tu allan i Gymru. Eisioes dangoswyd cryn ddiddordeb mewn deunydd hyrwyddo a anfonwyd i SWEDEN, YR EIDAL, GWLAD BELG, ac ESTONIA. Yn ddiweddar ymunodd PHIL MEAGER ar yr allweddellau fydd yn galluogi'r band i weithredu eu cynlluniau o rhyddahu caset cyn y Nadolig. Hefyd bydd crysau-T newydd ar gael ac fe fydd LP newydd allan yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

## JOHN GRINDELL

Mae JOHN GRINDELL wedi rhoi cynhyrchu caset Y DYNION AMHARCHUS ar 'hold' tan ar ôl y Nadolig. Mae'r cynnyrch eisioes wedi ei ysgrifennu i gyd ac un trac wedi ei recordio ond teimlad JOHN a'r band yw fod yr hinsawdd yn anffafriol ar hyn o bryd a byddai'n fanteisiol gohirio cynhyrchu'r tap am gyfnod. Mae JOHN fodd bynnag yn ystyried project Celtaidd arall fel 'EFFAITH Y SAESON' caset a gynhyrchwyd ganddo ym 1990 ond y tro hwn yn cynnwys caneuon mewn ieithoedd megis Gwyddeleg a Llydaweg.

## MESCALERO

Mae son bod aelodau MESCALERO ar fin cwblhau trefniadau ar gyfer sin ddawns yn Aberystwyth, gyda'r ochr weledol dan reolaeth DANIEL BROUGHTON a'r sain yn nwylo DJ GWERN.

## SEILAFFON RIBS

Mae SEILAFFON RIBS, grwp newydd o ardal Bangor angen rhywun i chwarae drymiau ac accordion ac yn ystyried cael ffidil. Mae'r grwp yn bwriadu chwarae cerddoriaeth indie / gwerin.

Os oes gan rhywun ddiddordeb cysylltwch ag: ELLIE, 44 Ffordd y Coleg, Bangor LL57 2AP.

## GIG . . GIG . . . GIG . . .

Mae tafarnwr yn Abergwaun wedi addo rhoi £100 tuag at gael grwp roc Cymreig, un bob mis am 'wech mis. Mae arian felly am 'wech grwp dros 'wech mis. (uh!) Os oes gan unrhyw grwp roc ddiddordeb yn y cynnig yma ac angen manylion pellach yna cysylltwch ar unwaith gyda : DEWI RHYS-JONES, FFLAT 5, 'COMMERCIAL HOUSE', YR HOTEL FAWR, WDIG, DYFED SA64 0BN.

## AR WERTH

Drymiau 'PREMIER' "Chrome Clad". 5 Drwm. Symbalau Zildjian a Paiste, Remo Rototoms, stands, stol ac yn y blaen. Y cyfan mewn bocsus. Pris i'w drafod. Ffôn: Caerdydd (0222) 221 584.

## ISIO GIG YN YR ALBERT?

Mae gigs yn cael eu cynnal yn yr Albert, Caernarfon pob nos lau. Os oes gennych ddiddordeb mewn chwarae ffoniwch ALEX am fanylion a thelerau ar (0286) 3468.

## RHYDDHAU DAU

Mae dau dâp newydd ymddangos o wreichion gweithgaredd gwiethdy ANKST yn ddiweddar. Y cyntaf gan DIFFINIAD yr ail gan WWZZ. Meddai ANKST : " . . . ynghyd a tâp WWZZ dyma debut cryfa'r Hydref. Criw o'r Wyddgrug sy'n gyfrifol am ddod a melodi a chaneuon yn ôl i'r sin ddawns. Hyderus, golygus a thalentog, yn arbenigo mewn sgwennu anthemau chwyslyd sy'n ymdrin a chariad, rhyw, cerddoriaeth a hwyl. Rhyddmau house sy'n sylfaen i dâp saith trac cynta y DIFFINIAD. Dyma'r tâp a fu'n chwalu'r anwiredd fod cerddoriaeth dawns yn undonog a di-fflach, a dim yn gerddoriaeth go iawn."

" . . . dyma WWZZ yn rhyddhau eu casgliad cynta o draciau dawns tanddaearol. . . mae'r traciau unigol yn ddigyfaddawd - yn galed, oer ac yn eich gwyneb. Synnau annisgwyl, rhyddmau caletach na haearn a threfniadau sy'n cymharu efo'r meistri . . KRAFTWERK, INNER CITY a PRODIGY. Mae WWZZ wedi llwyddo i greu cerddoriaeth RAVE-aidd sydd yn unigryw ac arloesol - miwsig off dy ben". (iesgob!)

## RHYDDHAU TRI

Mae LOLA newydd rhyddhau tri caset ar y cyd gan Y CELFI CAM y grwp o Bontardawe. "Tri clasur tanddaearol arall gan Y CELFI". Teitlau yw "TRIP I'R LLEUAD", "BI BOP ROBERT", ac "ALLAN AM FFLIPIN GINIO". Os am gaset cysylltwch â NORMAN LEWIS ar (0792) 862 264.



# Y CYFWELIAD MELYN

## YNG NGHWMNI'R SHWGAZERS KINKY

"Os ofynith rywun arall imi be ydi ystyr yr enw Caffi Vadassi, na'i ff....g lladd nhw"

Iwan Pierce: Medi 18 1992

Na'n wir, mae'r Fadassiaid eisiau siarad am bethau llawer mwy difrifol, yn bennaf oll eu cerddoriaeth a dyfodol eu band cwl sy'n hannu o ghettoes Corwen a'r Bala. Grunge dduwiau sy'n talu teyrnged ddiwyll i'r melodi. Mae Caffi Vadassi wedi synnu nifer o bobol yr haf dwythia yma, gan gynnwys y cyfwelydd hwn, gyda safon a chyffro eu cerddoriaeth. Wrth eu gweld yn ystod 1992, doedd neb yn cofio eu bod nhw mor dda a hynny, ac fel y darganfyddodd SOTH, toedden nhw ddim. Mae'r agwedd yn newydd, y gerddoriaeth yn newydd, yr unig beth sydd ddim yn newydd a deud y gwir ydi'r enw, er fod aelodau'r band wedi dwys ystyried newid hwnnw hefyd cymaint ydi ei hawydd i ddiymhatru o'r gorffennol. Mae'r llygaidd dystion i gyd yn unfryd, mae ne rhywbeth ffrigin da wedi digwydd i'r Indie-bobols yma o Benllyn; l roedd canwr Llesmair yn 'gobsmacd' ar ol eu clywed nhw'n fyw yn yr Eisteddfod, ac mae o leiaf un newyddiadurwr roc adnabyddus yn credu mai'r Vadassiaid ydi band y dyfodol. Mae hyn yn dipyn o gamoliaeth felly roedd hi'n hen bryd i SOTH gael gafael arnyn nhw a ffindio beth yn union sy'n mynd ymlaen.

**Safle:** Cefn y Goat yn y Bala. Gwyl Y Gwyniad, Medi 1992.

**Enwau:** Owain Meredith yn holi Iwan Pierce gitarydd blaen Caffi Vadassi. **Awyrgylch** Iwan yn fidgety, ar fin cychwyn perfformio hefo'r Fadassis yn lounge y Goat. Er ei fod wrthi'n trafod rhinweddau cael rhyw ar y silff ben tan, yn rhyfedd o dawel a

gofalus ei eiriau.

SOTH: Mi oedd yne son yn ddiweddar fod y band ar fin chwalu.

Iwan: "Oedden, ond ff.c, ddaru ni ddim; ar ol cael cynnig neud albym hefo Fflach, ddaru ni newid ein meddwl." Mae hyn yn gorsymleiddio'r sefyllfa braidd, rid on.

SOTH: Felly pa broblemau oedd y band wedi bod yn ei gwynebu yn ddiweddar?

Iwan: "Achos bod ni'n dod o Glwyd, dan ni ddim yn trendi Caernarfon pop band, dyn ni ddim fel, (un ges), Aros Mae 'thank Christ'. Mae bands o Glwyd yn cael eu hanwybyddu."

SOTH: Na! plis plis ( dagreuol dan artaith), dim Carnarfonslagin arall, plis esbonia dy gasineb, mae mor amherthnasol.

Iwan: Yn anffodus yn lle dadansoddi ei deimladau negyddol mewn ffordd adeiladol, mae Iwan yn penderfynu lawnsio mewn i ymosodiad arall, " Mae nhw mor pretentious, yn snybio pawb, mae gitarist nhw (Beganifs) yn 'one string wonder', fo di'r gitarist gwaethaf yn y sin roc gymraeg, bands fatha Cerrig Melys ddyle fod ar y top", ebe Iwan yn chwerw.

SOTH: Beth am drafod Vadassi ie? Yn hytrach na dirmygu bandiau eraill, wedi'r cwblw cyfweliad am Caffi Vadassi ydi hwn i fod. Cwestiwn newid y pwnc swyddogol SOTH, beth sydd wedi digwydd i yrfa Caffi Vadassi yn ddiweddar? Mae llwyth wedi sylwi ar rhyw newid sylfaenol, sneb di cael troedigaeth nagoes?

Iwan: "Dim ond yn ddiweddar dani wedi chwarae'n gall, wedi eistedd i lawr i sgwennu caneuon

yn hytrach na ff...o o gwmpas a malu cachu."

SOTH: Beth achosodd y newid syfrdanol hwn?

Iwan: " Dani rioed wedi bod yn 100% hapus..ac mae genddon ni lot o ffordd i fynd eto..dani wedi dallt fod isio gwneud cyfiawnder a ni ein hunain..caneuon ni ar Cofi Pop, 'swni ddim yn boddro prynu'r tap..load of bollocks". Mae'r Vadassiaid yn arbennig o awyddus i anghofio cynrych y gorffennol sydd ar dap."

SOTH: Ni ddilynwn y llwybr arbennig yma gyda'th ganiatad Iwan, beth am drafod sut wyt ti'n meddwl mae pobol yn gweld Caffi Vadassi?

Iwan: "Mae pobol yn meddwl ein bod ni'n Smiths revisited, ar y tap Cofi Pop er enghraifft ddaru Sain manufacturo'r swm i swmio fel y Smiths, 'dio ddim byd tebyg inni"

SOTH: So be ydi swm Caffi te?

Iwan: " Wall of sound, digital delay, chorus a flanger." Rhestrod Iwan gan fy nallu a thermau technegol, yn hytrach na disgrifiad o angerdd eu cyfansoddi.


SOTH: Mi 'oeddet ti'n son yn ddiweddar fod y band yn 'spiritualised' rwan, beth oeddet ti'n ei feddwl?

Iwan: " Ie, dani fewn i grunge metal."

Ateb byr ac lled anniddorol sydd heb ei nodweddu gan oleuni profiadau ysgytwol.

SOTH: (yn despret) Chi di'r grwp sydd wedi canu am 'llyw llawn ystafell' a dwi'n sbio o fy mlaen i rwan ar garton gwag Hofmeister, mi oeddet ti'n mynnu mai cyfweliad melyn oedd hwn i fod, pam hynny ?





CAFFI VADASSI

LLUN: ROLANT DAFIS

Iwan: "Achos mae o'n well na bod yn wyrdd". Perciais i fyny o glywed hyn, datganiad gwleidyddol arffwysol o radical?...na..just chydig o falu cachu trist. Yn ol Iwan roedd y cyfweiliad yn felyn 'vibrant', lliw hapus gobeithiol cynnes, rhywbeth yn debyg i ysbryd Caffi Vadassi, er na fuasech chi'n meddwl hynny o'r cyfweiliad yma.

SOTH: Ydi aelodau'r band yn dioddef o unrhyw glefydau? (mudandod er enghraifft)

Iwan: "Meddylol yn bennaf, ac mae Mike yn wahanglwyr sy'n lot o broblem ...ma'i fysedd o'n syrthio ffwrdd wrth iddo fo chwarae gitar ar y llwyfan."

SOTH: Beth am AIDS? Sgennoch chi ofn AIDS?

Iwan: "Pam ddylen ni dani gyd yn virgins"

SOTH: (Yn dod allan o'r depression), Be ydi proses gerddorol Caffi, sut mae'r clasuron yn cael eu creu?

Iwan: "Mae Mike yn gwneud y

geiriau...y geiriau gyntaf, a wedyn y gerddoriaeth fyny i jam." Hoff ddywediad y band mae'n debyg ydi 'Fits good, sounds good, play it.' Mantra bendigedig fin nos tua Corwen dwi'n siwr.

SOTH: So rho 'chydig o gen ar yr albwm newydd yma sydd yn yr arfaeth?

Iwan: "Fydd o wedi ei recordio ar wyth trac Fflach yn y Gaeaf, fydd o'n really if....g gwahanol." Ateb cynhwysfawr arall, mae'n bosib mae'r holl syniad ydi ein cadw ni yn y tywyllwch tan y Gwanwyn, pan fydd disgleirdeb Vadassi yn ffrwydro.

SOTH: Yn y dyfodol pan fyddwch chi'n chwarae, fydd ganddoch chi rhyw sioe lwyfan spectac?

Iwan: "Na dim really, 'di Chris methu symud, mae Mike yn pratt a dwi'n shwgazer." Peidiwch a digalonni, dwi'n siwr mae tynnu coes mae gitarydd 'band y dyfodol'.

SOTH: Yn anffodus drwy gydol y sgwrs mae'r silff ben tan yma

oeddet ti'n son amdano fo wedi aros yn y meddwl, ymhelaetha ar dy gampau rhywiol (dyma ddarn sbeisi y cyfweiliad).

Iwan: "That's for us to know, and them to find out". Dwi'n siwr mae'r Sex Pistols ddudodd hyn gyntaf.

SOTH: Son am ffantasis, ydi aelodau'r band erioed wedi ffantaseiddio eu bod nhw'n ffigwr roc enwog o'r gorffennol?

Iwan: "Dwi really isio bod yn Beganifs, a dwi'n siwr fod pawb arall isio bod hefyd"

SOTH: Reit ff....g hell dwi di trio popeth, gofyn di gwestiwn imi.

Iwan: "Pam wyt ti mor hyll?". Ac yn rhyfedd iawn mi ffindis i nad oeddwn i yn gallu meddwl am ateb chwaith. I fand sydd wedi cael reviews mor dda yn ddiweddar mae'n amlwg nad oes dim ysgytwol wedi digwydd, yn syml mae Caffi Vadassi fel nifer o fandiau eraill yn ddiweddar wedi penderfynu ymgeisio at lefel newydd o safon. Mae'n argoeli'n dda.



# CYLCHOEDD HUD MEWN CARAFAN

**Pwy feddylodd am yr enw Cylchoedd Hud?**

**Iwan:** "Dyfan a Gareth am eu bod yn hoff o'r Magic Rondabout. A Chris sy'n creu y Cylchoedd Yd."

**Pwy yw y band?**

"Dyfan - llais, Iwan a Gareth (Smiles - guitars, Gary - bas, Chris - sosbeni."

**Sut ffurfiodd y band?**

**Gareth:** "Roedd tri o'r band mewn grwp arall a phan chwalodd hwnnw fe ffurfiodd 'Yr Hud'."

**Pryd ffurfiodd y grwp?**

**Chris:** "Pa grwp?"

**Gary:** "O, mae'n debyg ei fod yn tynnu at flwyddyn nawr yn dydi, hogie?"

**Be' sy'n chilio ar y funud?**

**Dyfan:** "Fe fydd ein fideo cyntaf, 'O Watsw' (plyg, plyg) yn ymddangos ym mis Medi ac rydym wedi cael cynnig gwneud tap fis Tachwedd, ond rydym yn gobeithio recordio cyn hynny."

**Sut mae'r 'Steddfod yn mynd?**

**Chris:** "Gad imi orffen y Jack Daniels gynta'!"

**Y Grwp:** "Aeth gig nos

Sadwrn hefo Hanner Pei yn dda, o be' dan ni'n gofio (that's what they tell us!)"

**Sut aeth y gystadleuaeth?**

**Y Grwp:** "Ddim yn dda oherwydd y noson, y pnawn a'r bore cynt!!"

**Gary:** "Pryd oedd y gystadleuaeth?"

**Y Grwp:** "Llosgwyd y feirniadaeth a dinistrwyd cyngor y da y beirniad - NOT!"

**Lle mae'r Hud yn ymarfer?**

**Y Grwp:** "Top garej Geth Diwd, siwperhero Cymru."

**Geth:** "Gloddfa am byth! (Geth yw pwy?)"

**Y Grwp:** "Ia, ia, da iawn Geth (dyrnau'n fflio!) - ffenest yn malu! - AAAAAARGH!"

**Sut mae'r caneuon yn ffurfio?**

**Y Grwp:** "Rhai ar y ffordd i'r stiwdio mewn Fiesta coch eg 'Ofn'." Eraill yn datblygu dros y misoedd - 'OHatsw'."

**Gary:** "Fi wnaeth 'Pry ar y Wal'." (What you talkin' about!)"

**Pwy yw arwyr roc 'n' rol?**

**Gareth:** "John Lennon

Jim Morrison."

**Chris:** "Steve John (Jim Morrison reincarnated), stoned immaculate."

**Dyfan:** "Lennon."

**Iwan:** "Jimi Hendrix."

**Gary:** "Fi ac Axl."

**Be' fydd yn digwydd pan aiff rhai o'r band i'r coleg?**

**Y Grwp:** "Fe ddringwn y mynydd hwnnw ar ol prynu rhaffau newydd!"

**Sut le yw Blaenau i gynnal gigs?**

**Y Grwp:** "Mae'n anodd cael cyhoedduswydd ond mae pobl yn dechrau ein cymryd o ddifri'."

**Beth yw ystyr bywyd?**

**Gareth:** "Cwestiwn rhy hefi i mi ateb ar y funud ond bydd can ar yr albym newydd yn egluro popeth."

**Iwan:** "Byw!"

**Chris:** "Y garafan heno. He! He! He!"

**O'r gigs rydych wedi gael a oes 'na un yn sefyll allan?**

**Iwan:** "Yr Albert o flaen criw o stag night ravers."

**Chris:** "Nos Sadwrn dwyth - dim ond honno dwi'n gofio ar y funud."

**Gary:** "Knightleys, Rhyl. Gwd crac."

**Pwy hoffech rannu llwyfan gyda chi?**

**Gareth:** "Y Beatles."

**Chris:** "Neb, dwi'n hunanol."

**Dyfan:** "O'r llefydd dan ni wedi chwarae, does 'mond lle i un grwp ar y llwyfan!"

**Rhif ffon pwy yw'r mwyaf cofiadwy?**

Chris 0766 830 993 (mae hwn yn rhif eitha' cymhleth, Chris) neu Dyf (ar ol 5.30) 0766 830 538 (hwn eto yn rhif go hegar). Neb arall yn cofio eu rhifau ffon.

**Unrhyw neges arall?**

**Chris:** "Wel, mae'r blydi (censored, censored, censored) yn dydi, bois."

**Iwl:** "Dwi'n cytuno hefo Chris."

**Gary:** "Ga' i fynd 'wan, mae rhywun 'di dwyn fy niod!"

**Gareth:** "Pam dan ni'n marw dros dew ac aur?"

**Dyfan:** "Angen mynd i Kwik Save i nol mwy o bacon ond dwi 'di cael pob dim arall o Safeways (neges - chwarae ar eiriau - clyfar, eh?"





CYLCHOEDD HUD

## OES GENNYCH CHWI STORI DDA?

YDY'CH MAM YN RHEDEG MARATHON?

YDY'CH BRAWD YN CADW BOA CONSTRICTOR?

YDY'CH NAIN YN DAL I DDAWSIO

DAWS Y GLOCSN?

RHOWCH WYBOD I

HEL  
STRAEON

GRONANT, CAERNARFON  
LL55 1NS  
FFÔN  
(0286) 77595





# ER BUDD Y FORWYN

## CYFWELIAD HEFO LLESMAIR

Roeddwn i'n casau'r enw Cyffion Melyn, enw oedd yn fy atgoffa i o hen fferins capel oedd wedi mynd yn stici a diwerth ym mhoced ryw hen begor. Ond heblaw am yr enw toedd gennai ddim teimladau cryfion tuag at Y Cyffion, un band arall ymysg yr ugeiniau a ymddangosodd yn sydyn o niwl Clwyd circa 1985. Ddaru fi ddim twigio, tan ddaru'r band ddweud wrtha'i, mae ffenics o lwch Cyffion ydi Llesmair. Fel arfer hesbrwydd cerddorol sydd i gyfri am newid enw, ond yn achos Llesmair mae'n dynodi penderfyniad a cherddoriaeth newydd. A'u traed yn rhydd o'r cyffion fel petai dyma eu testimony.

SOTH: Pam tybed ddaru chi newid eich enw o Cyffion Melyn i Llesmair? (esgusodwch fi am ofyn cwestiwn sydd yn diwallu'n niddordeb personol yn hytrach na un sydd o unrhyw werth adeiladol)

Nathan: "Mi oedden ni'n cael comparisons i Cerrig Melys.... lot.... roedd y caneuon cynnar i gyd am rhyw, yn kinky a perferted..ni past the sexual stage nawr". Tydi'r gymhariaeth hefo Cerrig Melys ddim wedi anafu Nathan gymaint a hynny, mae Llesmair fel nifer o fandiau ymfflamychol eraill Cymru yn addoli'r melyswyr.

SOTH: Past the sexual stage, pwy ydach chi'n meddwl ydach chi, Cliff Richard? Delusions of grandeur os glywais i 'rioed, does gen hyn ddim i wneud a lefelau sperm yn mynd yn is nagoes?

Curig: "Mae'r lyrics wedi newid, penderfynu tyfu fyny ddaru ni." Yn anffodus dwi wedi ffeindio'r lyrics ar eu tap demo

nhw'n anealladwy, heblaw ambell 'agor dy goesau' ecsplisit yma a thraw.

SOTH: Felly rwan eich bod chi wedi penderfynu tyfu fyny pa bynciau llosg sy'n mynd a'ch bryd?.

Nathan: "Sdim pynciau i'r caneuon, dani ddim yn fand hefo neges... mae'r neges yn y gerddoriaeth."

SOTH: Yo! (wedi ei gyffroi) Beth yw'r neges? Disgrifiwch eich cerddoriaeth sy'n llawn o'r neges ie! ie! ie!

Nathan: " Chi erioed wedi clywed Morlo yn trio piwcio wrth ganu Bethoveen yr un pryd."

SOTH: A! y math yne o neges. Curig: "Crap, Crap, Crap"

SOTH: Ratner oedd y dyn dwythia i ddeud hynne a sbiwch be ddigwyddodd iddo fo.

Llesmair: Dim ateb. Credaf mae modesti oedd i gyfrif am eu diffyg hyder yn eu cynnyrch. Sefydlwyd Llesmair o dan yr enw Cyffion Melyn yn Ionawr 1990 ac yn ol eu cyfaddefiad eu hunain mae'nt wedi chwarae " tua 20 crap gig" ers hynny. Yn ol Curig fe gymerodd hi "ddwy flynedd i ddysgu sut i chwarae hefo band ac nid fel unigolion." Mae'r cyfaddefiad o bosib yn dangos pa mor ddifrifol mae'r band yn cymryd pethau bellach, (Os nad ydyn nhw wrth gwrs yn Americanwyr iypeaidd neu Gatholigion wrth gwrs lle mae cyfaddef yn ail natur). Yn wir mor hunanedifeiriol ydi'r cyfaddef fel fod aelodau'r band yn gallu beirniadu bandiau eraill." Mae lot o fandiau Cymraeg yn cael gymaint o lwyddiant pan mae'n nhw'n crap, fel Aros Mae ar y cychwyn? (Aros Mae? Cyhuddiad

o lwyddiant yn rhy gynnar? Dyma un newydd imi). Yn nol Curig, lleisydd y band, roedd Cyffion Melyn wedi cychwyn chwarae stwff fel y Charletans ymhell cyn Aros Mae a Beganifs. Mae ymdeimlad mawr o ddicter yn erbyn y Beganifiad yn ymdreiglo'n gyson, drwy eu sgwrs, dwn im be mae'r ddau fand yma wedi wneud i bobol ond yn sicr nid ydynt yn boblogaidd ar y funud ymysg eu cyd gerddorion. Be ydi'r rheswm tybed?.

SOTH: Reit slagoff lled anwreiddiol ar Beganifs ond pa lwyddiant ydech chi wedi ei gael ers cychwyn Llesmair.

Llesmair: " Fuoni'n chwarae yn Roc Ystwyth ac dani wedi bod yn ymarfer a chael set da a lot o support gan Cerrig Melys a DOM, ond yn Roc Ystwyth gaeth Tips Wyn Griffiths sy'n grwp newydd biling uwch na ni, di hynny ddim yn iawn"

SOTH: Yn wir mae plwyfoldeb yn glwy echrydus yng Nghymru (diolch byth), mae plwyfoldeb yn dda ac yn gyfiawn, sut mae'r sin yn Wrecsam rwan?

"Sdim sin yn Wrecsam" ebe Curig, a thinc hiraethus yn ei lais, "Ysgol Morgan Llwyd oedd yr ysgol, ond mae'r lle wedi mynd lawr y dren, yn seisnigedd iawn, sdim byd ar ol i ni", ychwanegodd gan ddefnyddio ychydig o rhethreg hanesyddol alles Louis'r pedwerydd ar ddeg. Mae Llesmair yn beio unai'r prifathro neu, ychydig yn fwy credadwy, y ffaith fod gan y trefnwyr lleol ofn colli arian ar gig. Yn nol Nathan, dau beth sy'n boblogaidd yn Wrecsam sef 'rave' a "Thorri mewn i geir a dwyn stereos." Hei!, Glwydis, beth sy'n digwydd?, gyrrwch lythyr.





LLESMAIR

LLUN: KEITH MORRIS

SOTH: Felly pam na wnewch chi hyrwyddo eich hunain? Mae ton cyhuddgar y cwestiwn hwn ychydig yn annheg o gofio fod Llesmair wedi cynhyrchu demo, a'i ddosbarthu.\*

"Ddim lle y band ydi trefnu", yn nol Curig ac mae Nathan yn ategu "Ni heb feddwl am publicity a hybu'r band." \* ditto.

SOTH: Be, yn fras ydi dyfodol Llesmair fel endyd cerddorol?

"Digon o gigs gyda Cerrig Melys, sani'n licio dechrau sin newydd...", cychwyna Curig gyda golau efengylaidd yn ei lygaid, ond fe dorra Nathan ar draws y rant bach gobeithiol hwn gyda; "Swni'n licio deud mod i'n casau Beganifs o achos di'r talent ddim yn matcho fyny i'r hype", edrychaf yn hynod sarrug ar Nathan, mae ymosodiadau ar Beganifs yn dechrau mynd ar fy nhethi erbyn hyn, "...y grwp gorau allan o Gymru yw Ail Gyfnod" parhaodd Curig er mwyn ceisio lleddfu'r awrygylch wrthwynebus sydyn.

SOTH: Mae si ar led fod tap

newydd hyfryd ar y ffordd, dywedwch ychydig o'r hanes.

Curig: "Sion o Fflach yn ffonio a chynnig tap inni", mae bil ffon chwarter dwythfa Fflach yn mynd i fod yn anferth ar ol seinio tua 20 o bands newydd ymlaen.

SOTH: Sut hops sydd gennoch chi ar gyfer y casetyn bach?

"Fudd o'n rhywbeth newydd i'r sin Gymraeg, heb eu glywed o'r blaen." Yn ol Llesmair mae ei proses gyfansoddi fel jigso. "Ni gyd yn chwarae rhywbeth gwahanol fel unigolion ond mae o i gyd yn ffitio. . ni'n jelio mor wych, ni ddim yn gerddorion brilliant (Chris De Burg bwyt dy galon allan), ond ni'n gweithio'n dda hefo'n gilydd."

SOTH: Gofynnwch gwestiwn i'ch gilydd ffrinds.

Curig i Nathan: Dychymyg Curig yn methu'n llwyr, Nathan yn ateb "Seven and a half inches and throbbing"

Nathan i Curig: "Beth ti'n feddwl o SOTHACH!?"

Curig: "No comment, mae

ishe mwy o ymchwil arnoch chi." Dyfarniad hallt ond teg, sy'n cyfeirio at y ffaith cywilyddus nad oeddwn i wedi clywed tap demo'r grwp cyn eu cyfweld. Roedd fy hygrededd fel cyfwelydd yn garpiau, felly fel penyd fe wrandawais ar y tap demo am ddwy noson yn ganlynol. Ac er fod y swn yn gignoeth, yn sicr mae rhywbeth ganddyn nhw. Gweler adolygiad yn adran demo newydd SOTH yn rhifyn Tachwedd.

DATGANIAD SYFRDANOL LLESMAIR "Mae definately sin newydd yn dechrau yng Nghymru, dyma'r bands sy'n rhan ohonno fo; Cathod, Mr Alffabett, Caffi Vadassi, Diffyg Parch, Wncl Ffestr a...Llesmair". Felly, yn rhad ac am ddim yn eich rhifyn Hydref o SOTH, eich crystal ball, rhestr siopa y dyfodol. Yn ol Nathan y llinyn cyswllt ydi eu bod nhw i gyd yn "fandiau gitar influenced aeddfed."

Diolch am eich hapusrwydd Llesmair.

Owain Meredith



**PENCERDD, AC ERAILL,  
DEFAID, WOLFSTONE,  
ALTAN, YR HWNTWS,  
BOB DELYN A'R  
EBILLION**  
- Gwyl Werin y Cnapan,  
Ffostrasol

Mae angen band gwerin go iawn ar Gymru. Ar hyn o bryd mae pob band gwerin yn ceisio bod yn gyfoes a gwahanol i'r hen grwpiau gwerin hen ffrasiwn ond y gwir ydyw nad oes yna grwpiau traddodiadol go iawn erbyn hyn. Mae Cegin Saron a Saith Rhyfeddod wedi gwneud smonach llwyr o bethau ac mae'r holl fandiau perthnasol hynny (ee Bob Delyn a'r Ebillion, Defaid, Moniars, Gwerinos ayb) yn hunan-barodiol erbyn hyn. Roedd hi'n braf gweld grwpiau gwerin go iawn yn Sesiwn Fawr Dolgellau (er eu bod yn y tafarndai ac nid ar y llwyfannau) a Jac y Do yn yr Eisteddfod, er rhyw grwpiau artiffisial oedd y rheini yn Nolgellau, 'folkies' yn dod at eu gilydd i greu band. Braf felly oedd gweld Pencerd d yn dechrau'r noson yn addawol acwstig, na doeddwn i ddim yn hoffi'r sain ond mae hyn yn dangos y potensial. Piti nad oedd

mwy o hwyl yn y perfformiad. Roedd Ac Eraill yn shambolig, yn arwain y gad i swyddfeydd S4C ac yn dangos yn glir eu doniau fel cyflwynwyr teledu a phregethu, bron 'run fath a Datblygu. Diolch byth na wnaeth Mynediad Am Ddim droi allan fel hyn!!! Defaid yn breffu, Wolfstone yn rocio 'run fath a Status Quo gyda ffidil minus drymiau ac Altan yn ffantastig. Ond syniad pwy oedd eu rhoi ymlaen yr adeg yna o'r nos pan oedd pawb eisiau dawnsio? Tu hwnt i Uffern. Roedd Yr Hwntws yn dda, braf gweld yr hogia'n dal i fynd. Noson dawel iawn. Yr awyrgylch yn fendigedig. Roedd Bob Delyn a'u harddull blws yn dda a dyna'r diwedd imi. Doedd gen i ddim llawer o fynadd aros i weld Dafydd Iwan, Plethyn etc felly adref a mi. Diolch bois. Sioe dda.

**Y Ddafad Golledig**

**HEADCLEANER,  
BYD NEWYDD,  
YR ADDEWID,  
VAFFAN CULO**  
- Normandi, Bangor

Hei, roc & rol mewn feniw (cymharol) newydd yng ngwaelod Bangor. Mae'r Normandi yn lle bach da i weld

band ac er bod y gorila anferth mewn caets uwchben y llwyfan wedi cael ei symud i stafell arall, mae 'na ddigon o fwystfilod roc & rol yma heno i unioni'r cam hwnnw ac i gadw'r landledi ar bigau'r drain ar gownt y swm. Vaffan Coulo sydd gynta', grwp o'r Felinheli sy'n canu yn Saesneg, swm trwm hefo mwy o bwyslais ar drymder na melodï a dynamics. Digon addawol. Petaen nhw'n canu yn Gymraeg mae'n siwr byddai pawb yn dweud mor dda a blaengar ydyn nhw! Son am addawol, mae'r Addewid yn canu heno hefyd! Hefo tap newydd allan ar Crai a toman o gigs lleol dan y belt, mae swm metal medrus y band a'r melodis metal meddal Rushaidd yn gafael. Mae angen grwpiau roc trwm Cymraeg ac mae band ifanc brwd o Gaernarfon yma i lenwi'r bwlch. Digon o waith caled ar y lon ydi'r ffordd ymlaen rwan i dorri allan o'r "Cofi Sin" ac i 'stwytho'r gerddoriaeth. Siomedig iawn ydi'r Byd Newydd yn fyw wrth i felodi ac amrywiaeth y tap newydd gael ei golli yng nghanol seiniau roc digon ystrydebol. Mae'n amlwg bod Bobs yn mwynhau ffryntio grwp roc ond, yn hytrach na rhoi gwedd newydd ar ei

gerddoriaeth a'i weledigaeth, mae Byd Newydd yn colli'r eironi a'r dychan a'r gwallgofrwydd a'r sensitifrwydd i gyd i lawr toilet yr indyljyns Bobsaidd. Dach chi ddim yn gallu clywed y geiriau 'chwaith. Trueni. Gwrandewch ar y tap newydd i adfer ychydig o ffydd. Mae Headcleaner yn ok. Mae'r miwsig yn thrash digyfaddawd ac yn waldio fel gordd. Un peth dwi wedi sylwi sy'n gwahaniaethu band Saesneg fel hyn oddi wrth fandiau Cymraeg ydi pa mor dynn ydynt a chymaint yn fwy profiadol ar lwyfan. Daw hyn o deithio parhaol, wrth gwrs. Mae band yn gwella'n aruthrol wrth wneud cyfresi o gigs ond tydi'r cyfle ddim yno yn y sin Gymraeg. Mae'r un peth yn wir am yr ochr ddawns/ref/DJ ayb. O berfformio'n gyson daw dealltwriaeth well o'r gynulleidfa a'r cyfrwng. Dwi'n cofio gweld y Beatmasters yn Berlin (Glamyrus or wot!?) ac mi oedd y swm a'r bit grymus jyst yn gorfodi ymateb dawnsaidd tra roedd Sioe Reu ein harwyr dawns yn "Rhyw Ddydd, Un Dydd" ychydig yn fflat ac yn llac o gymharu. 'D wn i ddim sut mae dod tros y problem yma os nad yw pob band/artist





yngwneud ymdrech fawr i gigio'n amlach neu bod corff fel y Cyngor Canu Cyfoes newydd yn gallu creu mwy o fwrwm byw?

### JESS - Roc Ystwyth

Cwps gwag, CPs gwag. Aberystwyth yn dawel. Yr undeb yn dawel. Y dafarn yn dawel a neb yn prynu pizzas. Roedd Brychan Llyr yn iawn. Pwy wnaeth benderfynu cynnal "Roc Ystwyth" ar nos Lun?! Nyts. I ddweud y gwir, pwy benderfynodd cynnal Roc Ystwyth? Wyddwn i ddim ei fod ymlaen tan y noson honno ac hyd yn oed ar ol cyrraedd Aber doedd yna ddim posteri, dim pobl, dim heip, dim trendis. Dim. Roedd neuadd yr undeb yn dywyll fel arfer ac yn dawel iawn - dim bands! Wel, mi wnaeth Jess berfformiad clodwiw. Cabaret! Brychan Llyr yn ei ledr, o'i gorun i'w sawdl, rwan yn dangos ei ddawn, nawr yn dangos ei frest. Wow. Mae Jess yn taranu drwy bob un o'u clasuron fel band sydd ar genhadaeth ddwyfol. Mae'r swigen wedi'i falurio ac erbyn hyn

mae Jess yn noeth i'r byd, dim heip, dim ffans, dim ond y gerddoriaeth a hwnnw'n dynn, dynn, dynn. Hei Beganifs! Rhowch imi "Mae'r Glaw yn Dod i Lawr" unrhyw ddydd. Does dim cymhariaeth. Ceisiwch a chwi a gewch, dyna ddaeth o "Roc Ystwyth". Y band a'r safon orau a welodd Cymru erioed efallai, sydd ganwaith yn well heddiw heb yr heip. Hogia bach, mi dynnwyd y rhaff yn dynnach nag erioed efo'r sibrydion o ganu mewn iaith estron. Pwy fyddai wedi dychmygu Brychan Llyr ddwy flynedd yn ol bron yn begera ar bobl i brynu'r caset newydd. Pass. Mae galluoedd goruwchnaturiol ar droed. O leiaf mae Jess yn ddigon aeddfed a da i fedru dygymod a dal i berfformio'n wych, ac os y medran nhw ddal drwy'r cyfnod isel yma bydd Jess yn 'tops' tro nesaf. Diolch i Dduw, mae band o safon credadwy perthnasol Cymraeg wedi cyrraedd o'r diwedd. Mi ddown ni ymlaen yn gret.

Mr Wah

GWYL BLUEGRASS  
- Trefriw

'Yo! Rockabilly rules the banjo'. Ha! 'So' mae hyd yn oed colofnwyr 'Sothach' yn 'bilingual' erbyn hyn. Wow! Yr influence gafodd Jess had. Mae ambassadors gwleidyddol a miwsical Cardigan yn thinkio'n similar. (*Dyna ddigon o'r lol 'ma Mr Golledig - Go!*).

Doedd dim byd Cymraeg o gwbl am yr wyl hon heblaw am y ffaith ei bod yn cael ei chynnal yn Nhrefriw - Lle?! Wel, am benwythnos bob blwyddyn mae Trefriw yn gwisgo het gowboi, yn gafael mewn offeryn ac yn chwarae cerddoriaeth werin America, byddai Geraint Griffiths a'i ryfel sifil wrth ei fodd. Roedd y mwd yn drychinebus (llawer iawn gwaeth nag unrhyw 'Steddfod) gydag offerynwyr a'u ceir yn styc ymhob twll a chornel, o diar! Dechrau da! Ond roedd mynediad i'r maes yn rhad ac am ddim ac oedd, roedd 'na far alcohol, lle i ddysgu gan yr Eisteddfod.... Marchnad enfawr o offerynnau, llyfrau i ddysgu chwarae, dillad od, gemwaith odiach, llwyth o bobl od, a llwyth o bethau od, roedd hyn 'r un fath a mynd i Camden Market efo Sian.

Na, tydi Trefriw ddim yn Sir Fon, ond mae'r gerddoriaeth yn syfrdanol. A finnau'n ceisio dysgu'r mandolin, dyma ymadael am y gweithdy mandolin lle roedd llwyth o bobl yn chwarae ganwaith yn well na fy nychymyg i - 'so this is what we're up against!' ar y llwyfan roedd un o'r grwpiau gwerin gorau imi erioed weld. Medrusrwydd, agwedd, gwalltiau, y ddelwedd a ffidlwyr cwl uffernol - pwy? Wel, dyna oedd y diffyg, doedd dim cyflwynydd a doedd y bandiau ddim yn cyflwyno'u hunain, ond dyna fo, pwy sy'n malio? Daeth band ar ol band ymlaen i'n diddanu ac yn wir difyrwch pur oedd yr holl gampwaith. Roedd hi'n braf cael dianc o'r Sin Reu sydd wedi boddi canu Cymraeg yn ddiweddar ac roedd hi'n braf gweld offerynwyr yn bysgio ymhob twll a chornel o bentre' bach. Y flwyddyn nesaf dwi ddim am wsigo fy het gowboi a reidio i Trefriw ond efallai y gallaf gael fy mherswadio i roi cynnig arall i'r lle.

Leyshon Jenkins



# HEI! BEIBI, CYT Y BYG!

## DANIEL GLYN

**Y record diwetha' i ti brynu**

Sengl newydd The Orb

**Hoffi glaw?**

Na

**Lle wyt ti a pham?**

Gwaith - gweithio

**Pryd fuost ti'n feddw ddiwetha'?**

Neithiwr

**Pam mae eira'n wyn?**

Er mwyn gweld baw ci yn haws yn y gaeaf

**Cawl tun, cawl paced, lobsgows cartre'?**

Lobsgows nain, darnau 'massive' o gig

**Gig cyntaf?**

Crys - Ysgol Glantaf 198?

**Y pella' i ti**

**ffawdheglu/ bodio erioed?**

Caerdydd - Bangor - Caerdydd

**Enwch dri clasur o gan**

"Our House" - Madness  
"Unbelievable" - EMF  
"Play That Funky Music" - Wild Cherry

**Un band fydd yn fawr y flwyddyn nesa'?**

Diffiniad

**Y peth diwetha' i ti ddwyn?**

Par o sbectol haul yn Llundain

**Wyt ti'n ffrind i Superted?**

Na, achos fe'n dweud - "Cofiwch, fydda' i ddim yno i'ch achub" -

busnes "Eich

cylchgrawn chi ydi

"Sothach", sgwennwch aton ni" a cyflogi gohebwy'r da. Dwi'n



useless prat

**Lliw sanau?**

Llwyd

**Agaiff Cymru fod yn rhydd ryw ddydd**

Caiff

**Caffi gorau Cymru?**

Crwys Cafe - fry-up gorau Caerdydd

**Pwy ddylai fod yn sgwennu yn "Sothach"?**

Dylai gael gwared o'r

siwr wnaiff Jiwlian Tomos dalu

**Fedri di newid plwg?**

Medraf

**Llaeth ynteu lefrith?**

Llaeth

**Ffordd gyflymaf o Gaerdydd i Gaergybi?**

A470 neu hedfan neu roced, LSD

**Beth yw dy arwyddair**

Byth, byth, byth

**Y peth diwetha' i ti brynu o gatalog**

Pants

**Person enwoca' i chi siarad a nhw**

Judith Chalmers

**Esbonia i Sais beth yw cerdd dant**

Pobl yn canu i'r don anghywir

**Enwa dri grwp perthnasol**

?

**Pa hysbyseb teledu wyt ti'n ei gasau?**

Y rhai PG Tips granules. Mae'r boi i fod yn stiwdant ac ma'i flat yn brill! Sut?

**Punchline dy hoff joc?**

Constable

**Pa ddiod sy'n gwneud i ti deimlo orau?**

Strawberry Milk

**Pwy sy'n well na'r Anhrefn?**

Well am be'? Canu, teithio, bod yn olygus - stiwpid cwestiwn

**Record mwya' dylanwadol erioed?**

Alice Cooper - "Play From The Inside"

**Y llyfr da diwetha' i ti ei ddarllen?**

"Fear and Loathing in Las Vegas"



## Y PROFIAID "O Na, Dyma . Y Profiad" (FFRINDIAU OSCAR GOLDMAN)

Mi ddylai cerddoriaeth wleidyddol, feddylol, ddwys, negyddol gael ei rhyddhau yn y gaeaf bob amser. Yn yr haf dylai'r gerddoriaeth fod yn ysgafn, digri', hwyliog. Mae'r Profiad yn fendigedig. Gyda cherddoriaeth syml ddawnsiadwy a rapwyr rhythmig llafurus gwyntog niwlog a diog mae'r Profiad yn hwyl. Sioc bleserus 1992. Mae'r caneuon yn hwylio rhwng y digri', y difri' a realaeth, sydd yn ysgytwad nid bychan i'r colfnydd hwn. Drwy samplo Mega City Four a nifer o gomidians, yn cynnwys comedians peldroed S4C mae'r Profiad yn gwyrdroi'r myth roc Cymraeg, na fedr canu yn Gymraeg fod yn hwyl heb fynd yn hollol nyts (U Thant circa 1987-8).

Mae yma driniaeth wael iawn o ferched, yn gyffredinol, mae'r stereo-typing yn wirioneddol chwdlyd, o'r "Anffyddlondeb" hyd at y gân nesaf (!) "Dydi Merched Ddim yn Licio Hogie Da", sydd, gyda llaw, yn glasur.


Mae'r Profiad hefyd yn ceisio cadw'r cysylltiad roc-peldroed chwedlonol ac mae hynny'n dod o'r galon y tro yma. Mae "Dwi'n Methu Stopio Siarad Am Beldroed" yn haeddu ei lle yn y llyfrau hanes fel pencampwaith

pop. Mae gen i'r un problem gyfaill, ond methu stopio siarad am gerddoriaeth ddwys wleidyddol

13 o ganeuon am bris 3 sengl - prynwch, mi wrandewch, mi hoffwch, mi wirionwch, cewch lond bol.


y profiad . anffyddlondeb . dydi merched ddim yn licio hogie da . rhyw-  
beth . y cyrner . dyddiadur . pwllheli yn yr haf . y digri'wyr . dydi  
poethau ddim wedi'r ym yn iawn . dei methu stopio siarad am beldroed  
pwrpas . tu ol i'r aelwyd . clwb cariad

O Na! Dyma...Y Profiad



Hwngaraidd y bydda' i.  
"Pwllheli yn yr Haf" yn dangos anwybodaeth Mr Lewis, er fod cytgan rymus pathetig yma. "Clwb Cariad"

Canu ifanc ysbrydoledig o Kibbutz. Mae hyn fath a bod yr Anhrefn erioed wedi digwydd!



sy'n cloi'r lp gyda'r 'namechecking' mwyaf 'hilarious' ers Huw G a DJ Williams. Fydd Clwb Ifor Bach byth yr un peth, wel....



PROFIAID A RHYW DROS  
GYMRU.

## HINDEG "Lisa Lan" (Hin Deg)

Mae rhai pobl yn medru creu da drwy ddefnyddio'r gorffennol. Mae Heather Jones, merch landeg, a fu unwaith yn gyfeilles a Geraint Jarman a Meic Stevens, yn haeddu pob dim a ddywedir amdani. Cam ymlaen at y byd gwerin go iawn yw'r grwp Hin Deg lle mae'r pwyslais yn cael ei symud oddi ar y llais nefolaidd hwnnw ac at y grwp.

Mae yma gasgliad o alawon a chaneuon hyfryd o'r dechrau hyd at y nodyn olaf. Mae'r gân "Lisa Lan" ei hun yn urddasol, tra bod y gân "Y Ferch ar y Cei" yn Wyddelig ei naws. Dyw'r alawon ddim ymhell oddi wrthi 'chwaith gyda'r ddwy ffidil, bodhran, bwswei a gitar yn cyfuno'n wyrthiol. Wow! Grwp gwerin go iawn Cymraeg o'r diwedd! Does yna'r un grwp wedi llwyddo i ddefnyddio'r bwswei mor effeithiol a hyn ers blynnyddoedd. Blydi hel! Mae hyn yn wyrthiol.

Mater o farn yw a ydyw "Harbwr Corc" yn gân i'w chanu gan ferch sydd a llais mor swynol. Imi cân galed hwyliog y morwyr ydyw, i'w chanu ar ras yn gras ond yma ceir fersiwn eitha' pathetig gyda'r llais gwan merchetaidd yn methu cyfleu ystyr y gân o gwbl. Ond dyna'r unig bum munud pathetig gyda "Cyngansail



Cymry" yn ardderchog, yn tynnu blew oddi ar grwpiau gwerin honedig eraill y Cymry ac yn alcemeiddio. Mae "Cyngansail Cymry" yn alaw hollol anhygoel, ddim fel yr alaw ddwy ran AABB draddodiadol Gymraeg, ond mae iddi oddetu 7 rhan wahanol sy'n cyflymu arafu, yn lleddf ac yn hapus ac yn wir yn swnio fel cerddoriaeth Wagner weithiau. Mae pob alaw Gymreig yn gynwysiedig yn hon.

Mae Hin Deg yn taro'r nodyn cywir. Hollol draddodiadol. Os mai un caset gwerin y flwyddyn y prynwch, prynwch hwn.

**Y Ddafad Golledig**

## BYD NEWYDD "Roced Ryan Giggs" (CRAI)

Beth sy'n digwydd!? Ers y tap am ddim oedd efo "Two Left Feet" mae bandiau Cymraeg yn mynd yn ffwtbol cresi! Y Profiad yn canu am "Fethu Stopio Siarad Am Beldroed", band newydd yn galw'u hunain yn Ian Rush a nawr mae hyd yn oed Byd Newydd i fewn ar yr act! GO IAWN!


Mae Crai ar y cyfan yn gwneud cloriau gwerth chweil, ac mae hwn yn enghraifft dda o hynny. Y geiriau oll yn cael lle blaenllaw ac wrth gwrs: "Ffeindiwch chi neb i stopio Roced Ryan Giggs." Wel, mae gen i ofn fy mod i yma i'w atal yn y fan a'r lle. Mi roeddem i gyd yma yn

swyddfa Cytgord yn edrych ymlaen at hwn. Mae caset gan Huw Bobs Pritchard fel arfer yn ddigwyddiad o bwys



ac yn orchwyl mawr i wrandawr. Ond y tro yma mae Bobs wedi gadael y

ganeuon union 'run fath a "Not Bad For a Baldy Bobs" gyda band metal trwm a dim ond weithiau mae o'n



gweithio. Mae'r riffs metal yn fwrn ar ambell gan gydag ychydig enghreifftiau


Might Be Giants' efo'i swm pync gwyllt digri'. Ond Bobs, dweud wrtha' i, beth yw'r gwahaniaeth rhwng Bobs efo band ar "Eistedd i Lawr, Trefna Dy Fywyd" ac ar "Mwy Na Chan" a'r Bobs ar ei ben ei hun ar dapiau Byd Afiach.

Mi oeddwn i eisiau, yn wirioneddol eistedd lawr a gwrando ar "Roced Ryan Giggs" ac yna canmol ond nid y tro yma mae gen i ofn. Wchi, mae'r addewid yma am bethau lawer iawn, iawn gwell, ond ar hyn o bryd addewid yn unig ydyw. Prynwch, gwrandewch, anghytunwch. Tap deg can a deg arddull gwahanol. Born again Bobs - NOT!

**Y Ddafad Golledig**

## DEFAID "Tocio Mogia" (FFLACH)

Dyma'r ddafad wedi brefu ar blastig am y tro cyntaf. Mae rhwystredigaethau cerddorol y pwmpiwyr petrol o Ddolgellau ar gof a chadw o'r diwedd, er ein bod wedi gorfod dioddef ei lyffethair llenyddol ers tro byd. Mae yma un-ar-ddeg o ganeuon sy'n arddangos amrywiaeth o arddulliau a dylanwadau gwahanol. Mae'r gan "Gobaith" yn fath o ymson gerddorol, fel pe bai Huw Dylan yn anfon llatai angerddol-anobeithiol at wrthych ei serch. Mae tranc y canwr i'w weld yn glir yn ei eiriau sy'n pylu'n enigmataidd: "Rydw i mewn cell ers cwrrd efo ti, fe



Byd Afiach, wedi ceisio ail-greu swm band Siencyn Trempyn, ac wedi dod fyny efo'r Byd afiach yn rantio i

gwahanol. Mae "Beth Yw'r Gwir?" yn dod drosodd fel Bobs efo band, tra mae "Broliant" yn 'fatgoffa o 'They



# Y Bugail Da

gadwaist y gorïad dy hun." (Williams Parry o gyfnod "Yr Haf a Cherddi Eraill" efallai?) Rydyn ni'n llygadrythu ar Huw Dylan yn un o'i gyfnodau mwy mewnblyg a meddylgar. John Denver, que me te veux? Can serch nwydwyllt arall yw "Hydref". Ond fe ddaw'n boenus o amlwg i'r gwrandawr na pherthyn unrhyw rinwedd arbenig i lais Huw Dylan. Nid yw'n hoelio sylw dyn, fel y gwna llais grymus a geiriau brathog David R Edwards, ac ni pherthyn unrhyw nodwedd arbennig iddo 'chwaith, fel yn llais bas unigryw a thrwynol-sgwarnoglyd Twm Morys. Ond y tro yma ceir achubiaeth yn y gân "Hydref": isalaw hyfryd a gwir ysbrydoledig ar y ffidil gân Huw Morgan sy'n gosod y gan mewn goleuni cwbl newydd. A fortiori, mae'r Defaid yn taro deuddeg yn y caneuon offerynol sydd ar y caset, pob un ohonynt yn addasiadau o alawon traddodiadol Cymraeg. Yma mae gwir ddawn y grŵp yn dod i'r amlwg: offerynwaith 'virtuosig' Huw Morgan a Guto Puw (ffidil a fflwt) a drymio cadarn (os braidd yn rhy fyrlymus ar adegau) Sion Pennant. Yn sicr mae uchafbwyntiau'r tap yn perthyn i'r tri yma: cydasio celfydd yr offerynwyr yn "Ffidil Ffadi" ynghyd a'r drymio egniol yn "Delyn Newydd/Môn" mae trefniant rhai o'r caneuon mewn llyfdd yn ymylu at fath o nihilistiaeth gwerinol, yn

arbennig tuag at ddiwedd "Pwt ar y Bys" lle ceir corws sy'n ymdebygu i haid o hen wêrs meddwol.

digwydd yn "Hyd y Frwynen". I bwrpasau perfformiadau byw, mae'n ddigon posib fod y syniad o


cyweirnod neu amsernod). Mae'n ddigon posib fod y Defaid wedi ceisio atgynhyrchu'r egni sy'n perthyn i'w perfformiadau byw, ond mae adnoddau ac effeithiau technegol yn dueddol o ymwared a negeiddio'r ysbryd byrfyfyr a greddfol a geir mewn gig. Y gân orau heb ddim amheuaeth o ran perfformiad a strwythur yw "Dolgellau". Dyma foment brin lle mae llais Huw Dylan yn gadarn a hyderus gyda'r offerynau yn gweu alawon cerddorol o gwmpas alaw'r llais. Mae'r cyd-chwarae yn wych ac yn arddangos gwir addewid. Ni ellir rhoi stamp un-lliw ar y Defaid. Mae'r clawr ynddo'i hun yn arddangos y paradocs sy'n amlwg drwy'r caset: llun o'r hogia o flaen cefndir pictiwresg gyda phen tatws surbwch Huw Dylan yn y canol (beth mae Guto Puw yn wneud hefo'i law dde?) a'r "A" anarchaidd yn enw'r grŵp. O'r anhygoel i'r anioddefol. Et tu, Brute?

Y Bugail Da



Teimlaf, fodd bynnag, nad oes digon o feddwl a chynllunio wedi mynd i'r trefniadau. Mae "Ffidil Ffadi", er enghraifft, yn dibynnu'n ormodol ar doriadau sydyn rhwng cyd-chwarae'r grŵp ac adrannau unigol: mae'r

gyflymu alaw yn araf drwy gydol y gân yn cael ymateb gwresog gan y gynulleidfa, ond i bwrpasau recordio mae angen mwy o sylwedd a mwy o amrywiaeth yn y trefniant. Fe welir hyn yn y ffordd mae grwpiau o'r Alban



elfen ddramatig yn colli effaith ar ôl ychydig ac mae'r gân yn mynd yn hirwyntog a diflas. Yn yr un modd, ni ellir seilio 'syniad' cân yn unig ar 'accelerando' ferl sy'n

a'r lwerddon yn creu cadwyn o alawon sy'n creu ymdeimlad - ar yr un pryd - o ddilyniant (yn y ffordd mae'r alawon yn cael eu cyfuno) a gwrthgyferbyniad (newid

**DISGYRCHIANT**  
**"Slecs"**  
**(SLECS)**

Pan ffoniodd Hywel Williams, un o gantorion Slecs, fi'n hwyr un noson a dechrau disgrifio *Disgyrchiant* tâp cyntaf y Slecs roeddwn i'n llawn chwilfrydedd. Yn ôl Hywel, cyn aelod o Dilyn Y Dall



# ADOLYGIADAU

(ymysg grwpiau eraill), roedd y tap, ddoth allan erbyn yr Eisteddfod yn Aberystwyth yn llawn o 'gerddoriaeth ddiddorol.' Methodd drosglwyddo union anian yr harmoni imi'r noson honno drwy gyfrwng y gwifrau, felly yr unig ateb oedd cael gafaél ar gopi ac...ie!, gwrando arno fo. Ar ôl rhoi gwrandawriad teilwng i'r hyn oedd yn gynnwysiedig ar seliwloid *Disgyrchiant* teg dweud mod i'n hollol 'gobddyrniedig.' Yn ddios dyma'r 'gerddoriaeth' mwyaf anhygoel o rhyfedd imi erioed adael i dreiglo drwy gelloedd gwag fy ymennydd. Mae 'beefburger' yn flasus ond yn gadael hen deimlad annifyr yng nghylla rhywun, mae'r eglwys yn wâg a phûr ag ysbrydol, gwacter sanctaidd, mae *Disgyrchiant* yn hyn i gyd ac ar yr un pryd yn run o'r teimladau yma, nac yn ddim byd arall chwaith, er fod ychydig bach o bobeth yma, chydig o ffwnc, chydig o burdeb etheraidd, chydig o dechnogyfrifidureg hardcore, brass band, gwerin, iw nem it mae o yno mewn rhyw ffurf neu'i gilydd. Ond tydi'r eclectiaeth heb greu cawl blasus, mwy fel atgof o 'Angel Delight' a bod yn onest. Ydi'ch nodwydd chi yn fy ngrwf i o achos mae trio disgrifio'r gerddoriaeth yma yn duhwnt ddyn. Mae hydynod awgrymiadau lled Neil Roseraidd o Sosiaeth cader eistedd sy'n brigo mewn penillion yn cychwyn a'r geriau, "Yn fy

ardal i", yn ffedio ffwrdd yn raddol i wacter y diffyg gwraidd, sy'n nodweddu'r holl dap. Toeddwn i rioed wedi deall, cyn clywed *Disgyrchiant*, pa mor dawel y gall seliwloid swnio. Mynegodd Hywel ei bryder imi, fod y grwp yn mynd i gael trafferth 'darganfod eu cyneulleidfa'. Mae hyn yn debyg iawn o fod yn wir. Fe fyddai darganfod cyneulleidfa i'r math yma o gynrych yn golygu o bosib fod ystyr bywyd wedi ei gracio, neu o leiaf fod dimensiwn newydd o fodolaeth wedi ei ddarganfod. Yn bersonol medraf ddychmygu Martians bach coch yn bopio i *Disgyrchiant* ar ol cymryd gormod o dywod radioactive. Plysus *Disgyrchiant* yn syml ydi os ydach chi'n un o'r bobol yna sy'n licio ff...o eich pen fyny yna cansluch eich tanysgriafiad i Celfi Cam Monthly, *Disgyrchiant* ydi'r cyffur newydd beibi.

Owain Meredith

## JESS "Paris Hotel" (JESS)

Mae yne ddeuoliaeth fawr wedi bod yn fy ymateb i i Jess (fel grwp a cherddoriaeth), reit o'r cychwyn, edmygedd, mwynhad ag eto rhyw chwilen fach yng nghefn fy mhen yn deud wrthai fod yna rhywbeth oi le arnyn nhw. Nid son am yr ymateb beirniadol arferol ydwi, 'Mae

nhw'n boring', Mae nhw'n mynd i ganu'n Saesneg', a'r anghredadwy 'Mae nhw'n rhy commercial', ymhlith y beirniadaethau cachlyd disail sydd wedi cael ei taflu at Jess dros y blynnyddoedd. Yr ymateb meddylgar oedd 'Dwi'n licio nhw ond....'. A dweud y gwir ddaru fi ddim rhoi llawer o feddwl i'r peth, hynny yw tan yn ddiweddar. Ond ar ôl gweld Jess yn fyw yn Roc Ystwyth ac wedyn yng nghyngerdd Mike Peters, mi sylweddolais i fod Jess yn hollol ddiymwad siwpergrwp, mewn unrhyw iaith yn y byd, yn anhygoel o gyffrous ac aeddfed ar y llwyfan, y perfformiad yn gampwaith o theatr a rythm a melodi. Mi adawodd y perfformiad yn Aberystwyth fi'n gegagored. Mi weles i wedyn fod yr amser wedi dod imi hela'r chwilen, ei ddal, a'i ddisectio. Roedd adolygu Paris Hotel, caset 14 trac a recordiwyd ar label annibynnol Jess (nid y disgwyledig Fflach), felly yn gyfle euraidd i ailystyried. O gymeryd y caset fel cyfanwaith rhaid dweud fod yma awr o gerddoriaeth sy'n plesio drwyddo draw, mi fedrwn chi wrando ar Paris Hotel drwyddo heb syrffedu unwaith, mae na lot o feddwl wedi mynd iddo fo, ac orherwydd ychydig iawn o funudau gwan sydd arno. Mae'r tap yn cynnwys y cymysgedd arferol o gitar, lleisiau theatraidd mewn harmoni, y drymiau yn gefndir i'r gerddoriaeth yn hytrach na'n ymwithio, a'r

gerddoriaeth yn llifo drwy gymaint o amrwymadau a newidiadau a Nant Y Mynydd. Ond mae yma elfennau cerddorol o'r newydd, organ drydan er enghraifft, sy'n awgrymu cynhesrwydd cerddorol. Mae nifer o nodweddion sy'n amlygu hyn, yn gyntaf nodwedd y tâp ydi cerddoriaeth barhaol yn hytrach na caneuon yn sefyll allan (er fod toriad rhwng y caneuon, mae'r naws yn blethwaith), dyw arddull y cynhyrchu ddim mor lan, clinigaidd ac oedd 'Hyfryd I Fod Yn Fyw', Fflach, ac mi rydan ni'n cael llai o Brychan ei hun, mae ei lais yn y gerddoriaeth yn hytrach nac yn arwain. Nid cyddigwyddiad yn siwr ydi mai Emyr sy'n canu 'HEDDFAN', ac nad yw Brychan ar y clawr, fel Hyfryd I Fod Yn Fyw. Mae rhywun yn cael y teimlad fod Brychan yn fwriadol wedi cael ei ddemotio (er mai ef yw'r prif ganwr o hyd), efallai er mwyn ailddarganfod y grwp. Teimlad cyffredinol sy'n esblygu o'r newididadau rhain, sydd ddim yn amlwg o bellffordd, ydi mwy o gynhesrwydd. Dwi'n credu fod newid o stiwdio Fflach i'r four trac wedi ailddarganfod Jess, mor 'raw' a'r band ifanc ar 'Jess' 1990, ond hefo'r theatr cabaret aeddfed wedi ei ychwanegu. Fe fyddai'n annheg a'r grwp i bigo allan y rhannau gwan yn y tâp, mae'n nhw'n brin iawn. Mae rhannau cryf a bendigedig i'w clywed, drwy'r tap i gyd.



# ADOLYGIADAU

Mae'n annodd pigo arnyn nhw i gyd, un o fy hoff ganeuon i ar y tâp ydi 'HEDDFAN', cân sy'n gyfuniad gwych o'r holl elfennau sy'n gwneud Jess yn fand mor gryf. Melodi syml, brydferth, yn ddigon amlwg iw adnabod, ond hefyd yn cael ei blethu i rythm diddorol a bywiog. Er fod llais Emyr yn grêt ar y gân yma, mae'n awgrymu pam na allai ddisodli Brychan fel ffryntman, gan Brychan mae'r llais sydd ddigon cryf i gario'r caneuon 'trymach', mae hon yn gân gofalus a thyner.


Er fod yr LP yma yn hollol wych dwi'n credu fod gan Jess nifer o broblemau. O rhan delwedd mae nhw

wedi canu ac wedi actio ar y llwyfan, fel siwpergrwp sydd yn mwynhau llwyddiant panglobaidd. Yn fy marn i roedd y ddelwedd yma yn chwa o awyr iach i sin sy'n dioddef o ormod o grwpiau sy'n fasocistaidd fwynhau eu gwerniaeth cerddorol, y pybs cachlyd ayyb. Yn anffodus mae i grwp sy'n canu yn y Gymraeg actio fel U2 ychydig yn embarrassing, oherwydd i fod yn dinoethi nifer o'n gobeithion mwyaf abswrdd ni. Mae'n amhosib 'llwyddo', ar y sin roc rhyngwladol drwy ganu yn Gymraeg, yn yr ystyr mae unrhywun sydd wedi ei fagu ar Top of The Pops a'r NME yn deall. Mae drws y 'Freuddwyd Roc A Rol' yn

dyn ar gau i unrhyw un sy'n dewis canu mewn unrhyw iath heblaw Saesneg. Mae wedi bod yn broses boenus gweld Jess yn brwydro rhwng eu hawydd naturiol i lwyddo a realiti'r sefyllfa. Mae'n ddiddorol nodi fod nifer fawr o eriau'r caneuon ar Paris Hotel yn ymdrin a'r union broblemau hyn. Yn gerddorol dwi'n credu fod Jess ynghanol brwydr rhwng eu talent a'u brwdfrydedd cerddorol a disgwyliadau (perfered!) y gyneulleidfa, yn yr ystyr mai band 'Cabaret' ydi Jess. Fuo'n nhw erioed yn fand roc, hefo'r holl ffug ddrygioni a'r rebelio ponsi mae hynny yn ei olygu, ac sydd mor boblogaidd gan bobol sydd

ddim yn ddrwg ac yn sicr ddim yn rebels. Gellir dadlau mae didwylledd Jess sydd wedi rhoi gymaint o elynion iddynt. Mae naws theatraidd cerddoriaeth Jess yn golygu fod eu cerddoriaeth nhw yn tueddu i fynd yn fwy cymleth wrth iddyn nhw fynd ymlaen ac efallai yn annoddach gwrando arno fo a'i werthfawrogi. Un o'r pethau sy'n fy nghalonngodi i fwya fel ffan o Jess ydi er mor wych ydi'r tâp, fod ei performiadau byw nhw yn rhagori ar y seliwloid. Wedi dweud hynny swni'n amau geith neb ei siomi o gymryd trip bach lawr i'r PARIS HOTEL. Prynwch, gwerthfawrogwch.

Owain Meredith





# Annwyl Sothach! . . . . .

Rhyd-y- Llwyn  
Penrhosgarnedd  
Bangor  
Gwynedd

Medi 8fed

## Annwyl Olygydd

Gair sydd gennyf o bryder mawr am y tueddiad gormodol ar Radio Cymru yn ystod y dydd, i chwarae gormodedd o recordiau o'r saithdegau. Mae cerddoriaeth ym mhob gwlad yn gofod datblygu a newid, hyn sy'n dangos ei fod yn ddiwylliant byw. Yn ôl ein gwrandawiadau bob dydd am dros dri mis mae 75%+ o'r recordiau a chwareuir ar raglenni: Dei Tomos, Hywel Gwynfryn, Stondin Selwyn ac eraill megis "Pryd mae Te" yn hen recordiau o'r gorffennol. 'Does gan y diwydiant na'r diwylliant cerddoriaeth gyfoes ddim gobaith ffynnu os erys pethau fel hyn a ein hunig donfedd Radio Genedlaethol yn Gymraeg.

Dwy eghraifft yn ddiweddar o anwybyddiad yw casetiau newydd o Flach megis Pedwar yn y Bar ac hefyd caset cyffrous Beganifs. Y dric sal yw bod casetiau fel hyn yn cael eu chwarae am yr wythnos gyntaf y dont allan OND yna yn eu hanwybyddu a'u gadael ar silff yn anghof ar ôl hynny. Ac yna yn ôl i'r un hen rigol "Blasts from the past" neu "Rave from the grave". Clywir "Ti" gan Edward H. Dafis bob wythnos yn ddiwahan ac wrth gwrs "Ysbryd y Nos" gan yr un grwp. Cafodd "Ysbryd y Nos" ei chwarae ar un diwrnod dair gwaith cyn Post Prynhawn ac 'roedd dwy o'r rhaglenni a gynhwysodd y gan hon yn syth ar ôl eu gilydd. Er gwyched y gân nid yw'n cyfiawnhau cynllunio gwael a diffyg chwarae teg i stwff newydd. Ni all unrhyw gân newydd ddod yn "glasur" fel "Ysbryd y Nos" a'r lleill, HEB GAEL EI CHAWARAE ar y Radio. Hefyd ni chawn fyth anghofio Endaf Emlyn a'i "Fecryll Wedi Ffrio" - 'mae nhw wedi llosgi bellach' oedd gosodiad un wrandawraig gyson yn ddiweddar. Ac oes 'na un wythnos yn mynd heibio heb glywed Caryl ar bob un o rhaglenni dyddiol? Does 'run o'r artistiaid hyn 'di gwneud perfformiadau byw cyson ers blynyddoedd lawer. O.K. mae rhai caneuon yn "classics" yng ngolwg rhai D.J.'s Cymraeg ond mae'n sicr bellach eu bod yn anwybyddu gwaith cyfoes ac yn gorlwytho rhaglenni efo'r un hen, hen artistiaid heb fod angen. Mae 'na stwff newydd gwych o gwmpas ond yr hen "fave raves" a gawn hyd syrffed ac ar draul casetiau a C.D.'s newydd efo rhai clasuron newydd arnynt. Does dim synnwyr na thegwch yn y peth, er budd y gân fyw yng Nghymru newidiwch pethe bobl Radio Cymru. Deffrwch plis cyn iddi fynd yn rhy hwyr.

Yn gywir  
Sion Lewis

*Y rhai sydd ganddynt glustiau . . . .*

Annwyl Sothach

Beth yw f.....n pwynt ysgrifennu at Sothach! a dweud 'i fod o'n

'load of shit'? Rwy'n teimlo'n drist iawn dros bobol sy'n treulio orie yn y stiwdio, dyddie a misoedd yn chwilio am gigs, yn eu chwarae hnw - dim ond i weld yr holl ymdrechion ac ysbryd iach yn cael ei chwalu mewn un rhifyn neu rhaglen radio sy'n trin y cwbl fel tase fo'n crap. Sdim ots pwy ydych chi - golygydd Sothach neu gyflwynydd un o raglenni Hwyrach? - chi sy'n gyfrifol am roi sylw a f....n parch i gerddoriaeth yng Nghymru! A be gawson ni yn rhifyn yma o Sothach? Wel, sbio ar y dwetha roedd "cyfweliad" y Manics yn dweud llawer am anallu pobl Cymru i barchu a mwynhau ei miwsig nhw. Doedd neb yn gwybod am records Cymraeg! Felly beth am werthu'r ff....s trwy roi sylw manwl i'r Addewid a'u tâp, Jina a'u tâp, Byd Newydd a'u tâp, Tynal Tywyll a'u tâp, Soriant a'u tâp, - oll ar label Crai. Ond beth am Wncwl Ffestr, Gorky's, Wwzz, ymddangosiadau pobl ar y teli, Fideo 9, personoliaethau? Manic D.J.'s fel y crowd ar "Hwyrach"? Pwy ydyn Nhaw? Rhowch f....n sylw iddyn nhw er mwyn iddyn nhw fedru rhoi sylw i'r grwpie. Blydi hel, mae'n syml. Gwaith yw'r unig beth. Hefo gwaith fedrwich chi ysgrifennu cyfweliad (+ adolygiad) efo 10 grwp y mis. Ond, be da ni danysgrifwyr yn ei gael? F.k all ond am y Gorky's a'r Manics. O.k roedd y Gorky's yn "A+" achos i fod o'n wrthrychol ac yn trin a rhywbeth spezial fel grwp spezial. Ond, hyd yn oed ar ôl hwnna, o ble gawn ni brynu'r tâp, ar ba label ydy o - be ff....c sy'n digwydd? Dwi dal ddim wedi cael stwff ar y popstars 'ma rydych chi, yn eich golygyddol a'ch calendars, wastad yn deud sy'n niferus ac yn gynhyrfus fatha'r Dadenni Dysg Diweddar.

Cymerwch yr hysbyseb am Criw Byw/S4C/Fideo 9 efo llun gitarydd Eirin Peryglus arni. Heb y sylwedd does dim pwynt cael blydi hysbyseb am 'rtoc show'. Ble f..k mae'r bobl sy am sgwennu am Eirin? Beth am ddatgan bod eu tâp nhw yn ran o hanes Eirin Peryglus. Wel, o leia fe adolygwyd y tâp. Ble mae'r cyfweliad Dwi ishio mwqy o stwff da, fe fydd rhaid dweud eich bo chi'n f....n diog . . .(ac wedi cymryd y prês a rhedeg i ffwr efo fo). Os gall golwg gynhyrchu stwff yn wythnosol pam na allwch chi wneud yn fisol. Blydi diog di hwnna boys a dim byd arall. Disgraceful.

Yn ddiwyll

John Major a Margret Thatcher.

O.N. Well i chi gael cyfweliade efo bands Crai or else!

Ac Ankst o ran hynny! Ma 'nhwn' hyped ond yn O.K! Beth am y blydi stwff ma a elwir yn 3 minute culture. Dos gynnoch chi ddim hyd yn oed 3 week culture. Ma'r cylchgrawn yn wan ac ma isho sylwedd yn ogystal a'r logo newydd. Mae pobl Cymru sydd wedi prynu'r cylchgrawn yn haeddu gwell. Dydy'r gweddill y shits (fatha'r Manics) ddim yn mynd i golli f..k all os ydy'r safon yma yn cario mlaen. Eto, rhag eich cywilydd!! Sawl tudalen sy gynnoch chi? Llenwch nhw a erthyglau nid shit 3 munud. Blydi hel!



# CATALOG ROC CYTGORD

# CATALOG ROC CYTGORD

**AIL GYFNOD** - NUANCE 12" £4.45 (R) (E.P.)  
 - ISOMERIG £2.55 (C)  
**AIL SYMUDIAD** - RHY FYR I FOD YN JOCI £5.10 (C)  
**ALAN GINSBERG** - CEGIN SARON £4.99 (C)  
**AMLGYFRANNOG** - BYW YN BRAF YN GIBALTAR £4.80 (C)  
 - DYMA'R RYSAIT £2.05 (EP)  
 - GWYRDD £4.70 (C)  
 - PWY FYDD YMA MEWN CAN MLYNEDD £3.60 (C)  
 - PENROC 1 £5.10 (C)  
 - MERCHED YN BENNAF £5.65 (C)  
 - HEN WLAD FY NHADAU £6.10 (C)  
 - HEI! MR DJ £6.65 (C) £10.65 (CD)  
 - TORRFR SGRIN £1.55 (C)  
 - O'R GAD (C) £6.99  
 - O'R GAD (CD) £10.50  
**ANHREFN** - SOFT LIGHTS & LOUD GITARS £4.85 (LP)  
 - BE NESA 89 7" £2.05 (S)  
 - DEFAID SKATEBOARDS A WELLIES £4.85 (L.P.)  
 - BWRW CWRW £4.85 (L.P.)  
 - BWTLEG POWERHAUS £3.05 (R)  
**BEGANIFS** - LLYGAID GWYDR £4.10 (C)  
 - FFRAETH £6.10 (C)  
**BOL** - BOL NADOLIG £2.55 (C)  
 - YN EICH GWYNEB £2.05 (C)  
 - BOL £2.05 (C)  
**BRODYR** - CYMYNRODD £6.15 (C)  
**BYD AFIACH** - BOBS NARSISYS YUM, YUM, YUM £3.70 (C)  
 - SLOTH £2.85 (C)  
 - FINE FIGURE OF A MAN £2.75 (C)  
 - SLAP GO HEGAR £4.60 (C)  
 - CROESHOELIWCW FI £1.55 (C)  
**CANOL CALED** - YR HAWL I FYW £2.05 (S)  
**CEFFYL PREN** - ENNILL DROS GYMRU 12" £3.80 (S)  
**CELT** - CYNFFON £4.00 (C)  
**CERRIG MELYS** - CERRIG MELYS £3.60 (C)  
 - EIN DWYLO ALLTUD £4.60 (C)  
 - CAU DY LYGAID £3.10 12"  
**CUT TUNES** - POBL Y NADROEDD £3.60 (C)  
**CWRW BACH** - TAMEIDIAU £2.55 (C)  
**CYNGHORWYR** - FFIDLAN £5.10 (C)  
**DATBLYGU** - BLWCH TYMER TYMOR £4.70 (C)  
**DEREC BROWN** - HANES Y BYD £5.10 (C)  
**DIEMS** - GOBAITH £4.70 (C)  
**DYFED EDWARDS** - DECHRAU £2.45 (C)  
 - SWN TAWEL TRISTWCW £2.05 (C)  
**DYLAN DAVIES A'R CRIW** - DYLAN DAVIES A'R CRIW £4.10 (C)  
**EIRIN PERYGLUS** - TROSGYNNOL £3.40 (C)  
 - MERTHYR £2.05 (S)  
 - EIRIN PERYGLUS 12" £3.40 (S)  
**FFA COFFI PAWB** - ALLAN O'I PHEN 12" £3.40 (S)  
 - FFA COFFI PAWB 12" £3.60 (S)  
 - CLYMHALIO £6.10  
**FFA COFFI PAWB / TERRY WAITE** - FFLECSI £1.00 (S)  
**FFLAPS** - AMHERSAIN £4.60 (LP)  
 - MALLTOD £5.95 (LP)  
 - DILYN DYLAN £2.05 (S)  
**GERAINT GRIFFITHS** - ARARAT £6.15 (C)  
**GERAINT LOVGREEN** - OS METS £6.15 (C)  
 - ENLLIB £5.10 (C)  
**GWEFRAU** - GWEFRAU 12" £4.10 (12")  
**GWRTHEYRN** - SYCH AR Y SUL £6.15 (C)  
**HEB GARIAD** - CANEUON O'R DE £2.05 (S)  
**HEFIN HUWS** - HEFIN HUWS £4.10 (C)  
 - CAE CHWARAE £3.50 (C)  
**HUW CHISWELL** - RHYWBETH O'I LE £6.15 (C)  
 - RHYWUN YN GADAEL £6.15 (C)  
**JESS** - HYFRYD I FOD YN FYW £5.99 (C) £9.50 (CD)  
 - JESS £3.10 (C)  
 - JULIA GITAR £2.05 (S)  
 - Y GATH £3.10 (C)

**JINA - Y LLWYBR** £3.10 (C)  
**JOHN GRINDELL** - PAID A GADAEL CYMRU £4.10 (C)  
**LLE ANGHYSBELL** - TRYLEDIAD £4.60 (C)  
**LLWYBR LLAETHOG** - PAM 12" £3.60 (EP)  
**LL.LL. v TY GWYDR MCDRE** - £6.10 (C) a (R)  
**LMR - BYW YMYSG Y FWLTURIAID** £4.70 (C)  
**GERAINT LOVGREEN** - OS METS £6.15 (C)  
 - ENLLIB £5.10 (C)  
**MABSANT** - COFEB £6.15 (C)  
 - TON GRON £6.15 (C) £9.50 (CD)  
**MAE FI GYN** - GARIJAM £2.65 (C)  
**MAFFIA** - AWE FO'R MICSAR £4.60 (C)  
 - DA NI'M YN RHAN £5.10 (C)  
 - TWTHEST OSON FFRENDLI £4.85 (C)  
**MISTECS** - POBL DIGWILIDD £4.60 (C)  
**MOJO** - RHYDD RHYW DDYDD £6.15 (C)  
 - AWN YMLAEN FEL HYN £6.65 (C)  
**NEIL ROSSER A'R PARTNERIAID** - SIONI BOB OCHR £4.60 (C)  
 - FFORDD NEWYDD GYMREIG O FYW £2.55 (C)  
 - OCHR TREFORUS O'R DRE £6.10 (C)  
**NEU UNRHYW DECLYN ARALL** - NEU £3.40 (C)  
**NID MADAGASCAR** - LLEDRITH LLIW £3.60 (12")  
**NYAH FEARTIES** - BARASSIE £2.05 (S)  
**PLANT BACH OFNUS** - AWST / LLWYD £2.05 (S)  
 - ISHARMONIG 12" £3.75 (E.P.)  
 - SYMUDIAD YMDANGOSOL Y LLEUAD £4.10 (C)  
**POP POSITIF** - POP POSITIF £2.05 (S)  
**PRY CLUSTIOG** - FY NGWLAD FY HUN £5.10 (C)  
**PYW DALL** - DIM HEDDWCH £3.60 (C)  
**RAY JONES** - MILLTIROEDD £5.10 (C)  
**SIAN JAMES** - CYSGODION KARMA £6.15 (C)  
**SOBIN A'R SMAELIAID** - SOBIN A'R SMAELIAID £9.70 (CD)  
**STEVE EAVES** - SBECTOL DYWYLL £5.50 (C)  
 - TIR NEB £2.75 (C)  
 - PLANT POBL ERAILL £6.65 (C)  
**TRADDODIAD OFNUS** - RHIF 2 12" £3.80 (EP)  
**TY GWYDR** - YR UNIG ATEB £4.10 (12")  
 - EFFEITHIOL £6.10  
**TYNAL TYWYLL** - JACK KEROUAC £2.05 (S)  
 - BYW TALU £3.50 (C)  
 - TELYN WEDI TORRI £2.05 (S)  
 - TYNAL TYWYLL £2.05 (S)  
**U THANT** - BUGELIO £5.60 (LP)  
 - U THANT 12" £4.00 (E.P.)  
**WENFFLAM / MASNACH RHYDD** - WENFFLAM / MASNACH RHYDD £4.10 (C)  
**Y CELFI CAM** - BLE AETH HELMUT? £2.00 (C)  
**Y CYRFF** - LLAWENYDD HEB DDIWEDD £6.10 (LP) (C)  
 - CYMRU LLOEGR A LLANRWST 12" £4.85 (EP)  
 - HWYL FAWR HEULWEN £2.05 (EP)  
 - AWDL O ANOBAITH £4.60 (C)  
 - YR HAINT £2.05 (S)  
 - PUM MUNUD £2.05 (S)  
**Y JECYSYN FFEIF** - ANNIBYNIAETH BARN £5.10 (C)  
**Y LLYGAID** - Y CASET DU £3.40 (C)  
**YR ORSEDD** - X £3.40 (C)  
**CRYSAU T** - EIRIN PERYGLUS - £6.15  
**BAMBW** - £5.60 Y FFLAPS - £6.15 12:45 - £3.10  
**PRISIAU YN CYNNWYS TRETH AR WERTH 17.5% A CHLUDIANT**

Amgaeaf siec / archeb post yn daladwy i **CYTGORD**  
 am £..... fel tal am.....


ENW.....  
 CYFEIRIAD.....

.....Taxi.  
 Anfonwch i: CYTGORD, 8 RHES VICTORIA, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3AG.  
 FE ALL ARCHEBION GYMERYD HYD AT 21 DIWRNOD I'CH CYRRAEDD!



**Tybed  
pwy  
sydd  
wedi  
bachu'r  
rhain  
i  
gyd?**

*BACHA HI O'MA  
BOB NOS SADWRN  
7.15PM  
CYNHYRCHIAD  
TELEDU'R TIR GLAS  
AR GYFER S4C*



**S4C**